_____ AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mai 2011

Annwyl

Llongyfarchiadau ar gael eich ethol yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwn y byddwch eisoes yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb mawr sydd ar eich hysgwyddau wrth gynrychioli etholaeth ac wrth gyd-weithio i lunio Cymru'r dyfodol.

Gall y Gymru honno fod yn un ryfelgar neu yn un heddychlon, a bwriad fy llythyr yw gofyn i chi ystyried cyd-bensaer pa fath o Gymru fyddwch chi?

Mae gyda ni gyfle euraidd i ddangos i'r byd mai cenedl heddychlon a di-drais y'm ni. Gallwn ddefnyddio ein Cynulliad i ledaenu neges tangnefedd, drwy ddangos nad ydym ni'n fodlon gweld ein pobl ein hunain yn cael eu hecsploetio fel mân-gyd-rannau ym mheiriant y diwydiant arfau.

Er nad oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol dros faterion 'amddiffyn', mae yna ddau faes pwysig lle gallwch chi, fel Aelod Cynulliad, ddefnyddio eich dylanwad i wneud gwahaniaeth:

1) **<u>Creu swyddi.</u>** Mae'n bryd i ni yng Nghymru fynnu gweld buddsoddi mewn swyddi adeiladol a chynaladwy a gwrthod cael ein defnyddio i weithio mewn swyddi "awyr-ofod" sy'n llyncu adnoddau, ac yn hybu militariaeth.

2) **<u>Sefydlu Academi Heddwch</u>** yng Nghymru – corff a fydd yn gweithio er hyrwyddo heddwch drwy Gymru a thros y byd. Am fwy o wybodaeth parthed y syniad hwn gweler *www.cndcymru.org/wales-peace-institute-presentation-to-national-assembly-petitions-committee/lang/cy*.

'Amddiffyn' yw'r gair a ddefnyddir mewn cylchoedd gwleidyddol i gyfeirio at weithgareddau milwrol – ond mae'r llythyr hwn yn galw arnoch chi i ystyried y cwestiwn 'amddiffyn beth?' Os amddiffyn cymdeithas wâr, heddychlon, onid oes rhaid gwneud hynny trwy ddulliau gwaraidd a heddychlon?

Nid yw cyfrannu at ddiwydiant sy'n creu arfau er mwyn bomio pobl – boed pobl mewn grym neu bobl dan ormes grym – yn ffordd waraidd na heddychlon o greu byd gwell nac o warchod buddiannau Cymru.

Erfyniaf arnoch i ddefnyddio eich statws fel Aelod Cynulliad i'n cynrychioli ni, bobl eich etholaeth, drwy wneud yn siŵr ein bod ni'n cael chwarae teg. Codwch eich llais o blaid Academi Heddwch Gymreig ac o blaid swyddi sy'n hybu heddwch nid rhyfel.

Peidiwch â gadael i Gymru - na'r Cymry - gael eu defnyddio mwy fel rhan o'r peiriant lladd!

Yn gywir

_____ AM
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

May 2011

Dear

Congratulations on your election as Member of the National Assembly for Wales. Without doubt, you will already be aware of the vast responsibility that you now shoulder as you represent your constituency and work towards creating the future Wales.

The purpose of my writing is to ask you to consider whether you see yourself as the co-architect of a warmongering or a peace-loving Wales?

In Wales, we have a unique opportunity to show the world that we are a non-aggressive, peaceful nation. We can use the Assembly to spread a message of goodwill, by showing that we will not tolerate the exploitation of our people as dispensable cogs in the military machine.

Though the Assembly has no direct responsibility for 'defence' matters, there are two important fields upon which you, as Assembly Member, can exert your influence to make a difference.

Job creation. It's high time for us in Wales to insist on seeing investment in constructive and sustainable jobs, and to refuse to have to work in e.g. the aerospace industry that devours resources and propagates militarism.

Establish a Peace Academy in Wales – this would be an institution that works to promote peace in Wales and throughout the world. For more information regarding this concept please see: *www.cndcymru.org/wales-peace-institute-presentation-to-national-assembly-petitions-committee/lang/en*.

'Defence' is the word used in political circles to refer to military action – but this letter calls upon you to consider the question 'the defence of what?' If what is meant is the defence of a civilised and peaceful nation, then ought this not be achieved through civilised and peaceful means?

The bombing of people - whether it be those in power, or those victims of power – is not a civilised and peaceful means of creating a better world, nor of safeguarding the interests of Wales.

I implore you to use your status as Assembly Member to represent us, the people of your constituency, by ensuring that we are treated fairly.

Do not allow Wales – nor the Welsh – be used any more as components of the killing machine.

Sincerely,